Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

# Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect

- Arweiniad i Ymgeiswyr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

| | |
|---|---|
| | Chwefror 2006 |
| **Angen mwy o wybodaeth?** | Ewch i'n gwefan yn www.cronfagymunedolylg.org.uk |
| **Côd cyfeirio** | |
| **Hawlfraint** | © Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol |
| **Dylunio** | Graphicsi.com |
| **Ffotograffwyr** | |
| **Copïau pellach ar gael gan:** | cymru@cronfaloterifawr.org.uk<br>Ffôn: 0300 123 0735<br>Cyfnewid testun: 18001 + 0300 123 0735 |
| | Hefyd ar gael yn Saesneg ac ar gais mewn Braille, print bras ac ieithoedd cymunedol. |
| **Rydym yn gofalu am yr amgylchedd** | Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ceisio isafu ei heffaith amgylcheddol negyddol ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig. |
| **Our equal opportunities** | Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr. Mae'n gyfrifoldeb i'r holl staff ac aelodau Bwrdd gynnal a gweithredu ein polisi cyfle cyfartal. |

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Adennill costau llawn** | Mae'r term 'adennill costau llawn' yn golygu sicrhau arian ar gyfer - neu 'adennill' - holl gostau eich mudiad, gan gynnwys costau uniongyrchol eich prosiectau a'ch holl gostau cyffredinol. Wrth adennill costau llawn mae costau cyffredinol eich mudiad yn cael eu rhannu ymysg prosiectau gwahanol eich mudiad. Costau llawn eich prosiect yw'r holl gostau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiect ynghyd â chyfran y prosiect o'r costau cyffredinol. |
| **Prosiect** | Eich prosiectau yw'r gwasanaethau a chyfleusterau y mae eich mudiad yn eu darparu. Gofynnwch i'ch hun: beth ydym ni'n ei wneud? Edrychwch drwy eich cylchlythyron, adroddiad blynyddol, cyhoeddiadau a gwefan i adnabod eich prosiectau. Y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddisgrifir fydd eich prosiectau. Gall prosiectau fynd ymlaen am dipyn neu efallai y byddant yn rhedeg am gyfnod amser penodedig. |
| **Costau Prosiect Uniongyrchol** | Costau uniongyrchol eich prosiect yw'r holl gostau a geir yn glir ac yn uniongyrchol o ganlyniad i'r prosiect. Er enghraifft, bydd cyflogau staff y prosiect, eu teithio a chynhaliaeth, deunyddiau prosiect a'r holl gostau eraill y gellir eu hadnabod yn hawdd fel rhan o'r prosiect. |
| **Costau Cyffredinol** | Costau cyffredinol yw'r costau angenrheidiol er mwyn i'r mudiad weithredu, nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag un prosiect. Yn gyffredinol maent yn cynnwys costau rheoli, gweinyddu a chefnogaeth gyffredinol ynghyd â chostau adeiladau sy'n gyffredin i'r mudiad cyfan. Yn aml gelwir y costau hyn yn gostau anuniongyrchol, craidd, canolog neu gefnogi. |
| **Costau cyfalaf** | Costau cyfalaf yw costau prynu cyfarpar, dodrefn, costau adeiladau neu eitemau eraill sy'n costio symiau sylweddol ac y bydd yn para am nifer o flynyddoedd. Er enghraifft, mae'r costau a delir wrth brynu cyfrifiaduron, bws mini neu adeiladau newydd i gyd yn gostau cyfalaf Mae'r holl gostau eraill yn gostau refeniw. |
| **Costau refeniw** | Costau refeniw yw'r costau a delir yn rhediad bob dydd y mudiad a'i brosiectau. Gall costau refeniw fod yn gostau cyffredinol neu gostau uniongyrchol y prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau fel nwyddau swyddfa, rhent, gwres a golau, biliau ffôn a deunyddiau. |
| **Dibrisio** | Pan fyddwch yn prynu eitemau cyfalaf megis cyfarpar, dodrefn neu adeiladau sy'n para am nifer o flynyddoedd, gall cost yr eitem hon gael ei lledaenu dros gyfnod yr amser y bydd yr eitem honno mewn defnydd. Gelwir hyn yn ddibrisio. Er enghraifft rydych yn prynu cyfrifiadur a gostiodd £900 ac rydych yn disgwyl iddo bara am dair blynedd, y gost ddibrisio ar y cyfrifiadur fyddai £900 x 3 = £300 ar gyfer bob blwyddyn. |

# 1. Y canllaw hwn

Ar y ffurflen gais, rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym faint rydych eisiau i ni ei gyfrannu at eich costau cyffredinol.
Pan fyddwn yn asesu eich cais, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi esbonio swm y costau cyffredinol rydych yn gofyn i ni ei gyfrannu. Rydym yn darparu dau adnodd i'ch helpu gwneud hyn.

1. **Mae'r arweiniad hwn i ymgeiswyr** yn esbonio sut i gyfrifo costau llawn eich prosiect, gan gynnwys y costau cyffredinol.

2. **Mae taenlen adennill costau llawn** yn eich helpu cyfrifo costau llawn eich prosiect a faint rydych eisiau i ni ei gyfrannu at eich prosiect.

Os oes gennych ddull o gyfrifo costau llawn eich prosiectau eisoes, ni fydd angen i chi ddefnyddio'r llyfryn hwn i lenwi ein ffurflen gais neu ateb ein cwestiynau. Dylech wirio adrannau 5 a 7.1, sy'n esbonio'r costau cyffredinol na allwn eu hariannu a'r dulliau o'u rhannu rhwng prosiectau na fyddwn yn eu derbyn. (Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn ein deunyddiau ymgeisio.)

Os nad oes gennych ddull o gyfrifo costau llawn eich prosiectau, byddwn yn disgwyl i chi naill ai ddefnyddio'r llyfryn hwn neu ddull arall a ddefnyddir yn helaeth, fel y rhai rydym yn eu rhestru ar ddiwedd y llyfryn.

## 1.1 Yr arweiniad i ymgeiswyr

Gellir defnyddio'r arweiniad i ymgeiswyr ar ei ben ei hun neu ar y cyd â'r daenlen adennill costau llawn. Mae'r arweiniad i ymgeiswyr yn cynnwys dwy enghraifft i ddangos y dull adennill costau llawn:

- Mae Prosiect Plant Undref yn dangos adennill costau llawn mewn sefyllfa syml. Mae'n dangos sut i gyfrifo costau llawn heb ddefnyddio'r daenlen adennill costau llawn
- Mae Canolfan Gymunedol Ioan Sant yn dangos adennill costau llawn mewn sefyllfa fwy cymhleth. Mae'n dangos y defnydd o'r daenlen adennill costau llawn hefyd.

Mae'r holl rifau a ddefnyddir yn yr enghreifftiau at ddibenion dangosol yn unig ac wedi'u talgrynnu i'r cyfanrif agosaf.

## 1.2 Y daenlen adennill costau llawn

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r daenlen adennill costau llawn gallwch argraffu'r daenlen wedi'i chwblhau a'i hamgáu gyda'ch cais i ddangos i ni sut rydych wedi cyfrifo costau eich prosiect.  Daw'r daenlen gyda:

- nodiadau arweiniad y daenlen, gan esbonio sut i deipio rhifau yn y daenlen adennill costau llawn
- taenlen gyflogau, i'ch helpu cyfrifo costau llawn cyflogi staff.

# 2. Cefndir

Gall Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (”ni”) dalu am holl gostau uniongyrchol y prosiect rydych am i ni ei ariannu. Gallwn hefyd wneud cyfraniad rhesymol tuag at gostau cyffredinol rhedeg eich mudiad yn gyffredinol. Gofynnir i chi roi gwybodaeth i ni am eich costau cyffredinol ni waeth p'un a ydym y eu hariannu ai beidio. Rydym yn disgwyl y caiff ein cyfraniad tuag at y costau cyffredinol ei gyfrifo ar sail adennill costau llawn.

## Defnyddio canrannau

Trwy gydol y canllaw hwn rydym yn defnyddio canrannau i gyfrifo:

- sut mae costau'n cael eu rhannu
- cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant a newidiadau mewn lefelau gweithgarwch.

## Cyfrifo canrannau

Mae un y cant (1%) yn golygu 1 wedi'u rhannu â 100 (1 ÷ 100) – hynny yw, un ganfed ran.

- Mae 1% yn 1/100 wedi'i fynegi fel ffracsiwn, neu 0.01 fel degolyn.
- Mae 3% yn 3/100 wedi'i fynegi fel ffracsiwn, neu 0.03 fel degolyn.

I gyfrifo canran o rif rydych yn lluosi'r rhif â'r ganran wedi'i fynegi fel degolyn:

- Mae 1% o £1,000 yn 0.01 x £1,000 = £10
- Mae 3% o £1,000 yn 0.03 x £1,000 = £30
- Mae 50% o £1,000 yn 0.50 x £1,000 = £500.

## Rhoi ystyriaeth i chwyddiant

Mae chwyddiant yn golygu faint mae costau'n codi o flwyddyn i flwyddyn. Mynegir chwyddiant fel canran fel arfer. Os gwarioch £1,000 ar eich bil ffôn y llynedd ac rydych yn tybio y bydd yn codi 3% oherwydd chwyddiant, bydd y bil ffôn yn codi:
3% o £1,000 = 0.03 x £1,000 = £30.

Felly, y bil ffôn eleni fydd: £1,000 + £30 = £1,030. Dyma'r un peth â lluosi ag 1.03: £1,000 x 1.03 = £1,030.

Y ffordd gyflym o gyfrifo cost chwyddiant yw lluosi'r gost ag 1 plws y gyfradd chwyddiant wedi'i mynegi fel rhif degol. Dyma sut y byddwn yn dangos cynnydd mewn cost o ganlyniad i chwyddiant yn y canllaw hwn. Bydd cynnydd 3% mewn cost o £1,000 yn cael ei ddangos fel:

£1,000 x 1.03 = £1,030.

## Rhoi ystyriaeth i chwyddiant a newid mewn gweithgarwch

Weithiau gall costau godi hefyd oherwydd newid mewn lefelau gweithgarwch. Er enghraifft, bydd ychwanegu prosiect newydd o bosib yn golygu y byddwch yn gwneud mwy o alwadau ffôn. Os ydych yn amcangyfrif y byddwch yn gwneud 25% yn fwy o alwadau y flwyddyn nesaf ac y bydd chwyddiant yn 3%, y bil ffôn y flwyddyn nesaf fydd:
£1,000 x 1.25 x 1.03 = £1,287.50. Dyma sut y byddwn yn dangos cynnydd mewn cost o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgarwch a chwyddiant.

# 3. Adennill costau llawn

Mae adennill costau llawn yn golygu sicrhau bod eich costau i gyd, gan gynnwys costau cyffredinol, yn cael eu talu gan incwm, ni waeth beth yw ei ffynhonnell. Gall methu ag ariannu costau cyffredinol yn iawn arwain at ansefydlogrwydd a chyflwyno gwasanaeth gwael. Rhai o fanteision y dull adennill costau llawn yw:

- Rheolaeth well ar eich costau: Chi fydd yn gwybod beth yw costau llawn eich prosiectau. Byddwch yn gallu adnabod pa brosiectau sydd â gwarged neu sy'n gwneud colled ar ôl darparu ar gyfer costau cyffredinol.
- Costio prosiectau'n well: Byddwch yn gallu asesu effaith cyflwyno prosiectau newydd ar eich mudiad a'r cyllid y mae ei angen arnoch i dalu costau llawn y prosiect.
- Cymharu costau llawn â'r cyllid sydd ar gael: Os ydych eisoes wedi sicrhau rhywfaint o gyllid ar gyfer prosiect, byddwch yn gallu gweld a fydd y cyllid hwn yn ddigonol. Gall hyn eich helpu penderfynu p'un a fyddwn yn bwrw 'mlaen gyda phrosiect ai beidio.

# 4. Ymadroddion a ddefnyddir yn y canllaw hwn

I esbonio adennill costau llawn mae angen i ni ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sydd ag ystyron penodol, er enghraifft: “prosiectau”, “costau uniongyrchol” a "chostau cyffredinol”. Byddwn yn defnyddio mudiad o'r enw ArWaith i helpu esbonio'r ymadroddion hyn.

**Enghraifft: ArWaith**

Prif amcan ArWaith yw "cynorthwyo oedolion sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl diweithdra tymor hir". Mae adroddiad blynyddol ArWaith yn esbonio ei fod yn:

- cynnig cyngor a chefnogaeth ar yrfaoedd i oedolion sy'n dychwelyd i'r gwaith
- rhedeg cyrsiau ar ddatblygu sgiliau gysylltiedig â'r gwaith
- gwneud ymchwil i effeithiau diweithdra tymor hir.

## 4.1 Prosiect

Eich prosiectau yw'r gwasanaethau a chyfleusterau y mae eich mudiad yn eu darparu. Gofynnwch i'ch hun: beth ydym ni'n ei wneud? Edrychwch drwy eich cylchlythyron, adroddiad blynyddol, cyhoeddiadau a gwefan i adnabod eich prosiectau. Y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddisgrifir fydd eich prosiectau.
Gall prosiectau fynd ymlaen am dipyn neu efallai y byddant yn rhedeg am gyfnod amser penodedig.

**Enghraifft: Prosiectau**

Mae prosiectau ArWaith yn:

- wasanaeth cynghori: darparu cyngor a chefnogaeth ar yrfaoedd
- prosiect hyfforddi: darparu cyrsiau hyfforddi mewn datblygu sgiliau gysylltiedig â'r gwaith
- prosiect ymchwil: gwneud ymchwil i effeithiau diweithdra tymor hir.

Gall pob un o'r rhain gael ei rannu i lawr i fwy o brosiectau, er enghraifft efallai bydd gan y prosiect hyfforddi brosiectau ar wahân ar gyfer pob math o gwrs neu leoliad cwrs.

## 4.2 Costau uniongyrchol y prosiect

Costau uniongyrchol prosiect yw'r holl gostau a ddaw yn glir ac yn uniongyrchol o ganlyniad i'r prosiect. Yn gyffredinol, mae cost brosiect uniongyrchol yn digwydd dim ond o ganlyniad i'r prosiect.

### Enghraifft: Costau uniongyrchol y prosiect

Gallai costau uniongyrchol Prosiect Hyfforddiant ArWaith gynnwys:

- ffioedd neu gyflogau'r tiwtoriaid cwrs, eu treuliau a chostau recriwtio
- cost hurio lleoliadau ar gyfer y cyrsiau
- cost hysbysebu'r cyrsiau
- cost y deunyddiau a chyfarpar addysgu a ddefnyddir i ddarparu'r hyfforddiant.
- costau teithio a byw a delir i oedolion sy'n mynychu'r cyrsiau.

## 4.3 Costau cyffredinol

Wrth gostau cyffredinol (sydd weithiau'n cael eu galw'n "gostau craidd"), golygwn gost gweithwyr, gwirfoddolwyr, cyfarpar, lle a gweithgareddau sy'n cefnogi'n rhannol y prosiect rydych am i ni ei ariannu, ond sydd hefyd yn cefnogi eich prosiectau eraill. prosiectau eraill.

Yn y rhan fwyaf o fudiadau mae'n gwneud synnwyr i brosiectau rannu rhai costau. Er enghraifft, efallai y bydd prosiectau'n rhannu'r un adeilad. Mae costau rhentu a rhedeg yr adeilad yn gostau cyffredinol. Mae'n bwysig nodi y gall costau penodol fod yn gostau prosiect uniongyrchol neu gostau cyffredinol o dan amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, os bydd prosiect yn rhentu ei adeilad ei hun, bydd y rhent yn gost uniongyrchol y prosiect.

### Enghraifft: Costau cyffredinol a chostau prosiect

#### Costau cyffredinol

Mae ArWaith yn gweithredu o swyddfa wedi'i rentu ac yn cyflogi rheolwr, cynorthwy-ydd gweinyddu a glanhawr swyddfa. Mae holl brosiectau ArWaith yn gweithredu o'r un swyddfa. Mae costau rhentu a rhedeg y swyddfa a chyflogi'r rheolwr, cynorthwy-ydd gweinyddol a glanhawr i gyd yn gostau cyffredinol.

#### Costau prosiect

Mae'r prosiect hyfforddi'n rhentu ystafell mewn coleg lleol i redeg cwrs hyfforddi 10 wythnos. Defnyddir yr ystafell ddim ond ar gyfer y cwrs hyfforddi. Cost rhentu'r ystafell yw cost uniongyrchol y prosiect hyfforddi.

## 4.4 Costau cyfalaf a chostau refeniw

Weithiau mae angen i chi brynu cyfarpar, dodrefn, adeiladau ac eitemau eraill sy'n costio symiau sylweddol o arian, ond a fydd yn para am nifer o flynyddoedd.

Costau cyfalaf yw'r rhain. Er enghraifft, mae'r costau a delir wrth brynu cyfrifiaduron, bws mini neu adeiladau newydd i gyd yn gostau cyfalaf. Gelwir yr holl gostau eraill yn gostau refeniw.

### Enghraifft: Costau cyfalaf a chostau refeniw

#### Costau cyfalaf

Mae prosiect hyfforddi ArWaith yn prynu uwchdaflunydd a gliniadur ar gyfer tiwtoriaid y cwrs. Disgwylir y bydd yr eitemau hyn yn para am nifer o flynyddoedd. Costau cyfalaf yw'r rhain.

#### Costau refeniw

Mae costau cyflogi'r tiwtoriaid, hurio'r lleoliadau a hysbysebu cyrsiau unigol yn gostau refeniw.

# 5. Yr hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei ariannu

Ni all Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ariannu:

**1.** Unrhyw gostau prosiect neu gostau cyffredinol rydych yn eu talu cyn i ni ddyfarnu grant i chi, gan gynnwys costau a dalwyd wrth ymgeisio am y grant hwn ac unrhyw gostau strategol a dalwyd cyn i chi ymgeisio.

**2.** Unrhyw gostau prosiect neu gostau cyffredinol y mae rhywun arall yn talu amdanynt yn benodol, mewn arian neu mewn da.

**3.** Unrhyw gost nad yw'n gysylltiedig â chanlyniadau prosiect penodol fel cyfraniad at symiau wrth gefn.

**4.** Costau tybiannol a chostau na fyddant byth yn cael eu talu. Er enghraifft, os darperir adeilad i chi am ddim, ni fyddwn yn cyfrannu at rent tybiannol.

Dylech eithrio'r fath gostau o'ch cais.

Ni allwn ariannu costau dibrisio, oherwydd y byddai hyn yn golygu cyfrannu at gost y mae eich mudiad eisoes wedi'i dalu.

Bydd gan bob un o'n rhaglenni restr o gostau na fydd y rhaglen honno'n eu hariannu (o'r enw 'costau anghymwys') ac uchafswm maint grant hefyd.

### Enghraifft: costau y gallwn ac na allwn eu hariannu

- Mae ArWaith yn derbyn grant blynyddol o £10,000. Mae'n rhaid defnyddio'r grant hwn i dalu rhent y swyddfa. Cost rhentu'r swyddfa yw £15,000 y flwyddyn.

  Gallwn gyfrannu dim ond tuag at y rhan o'r rhent nad yw'n cael ei ariannu: £15,000 minws £10,000 = £5,000. Dylai ArWaith ddefnyddio £5,000 fel cost y rhent wrth gyfrifo ei gostau cyffredinol.

- Mae ArWaith yn rhentu rhan o'r swyddfa i elusen arall. Mae'n defnyddio'r enillion i gefnogi ei gostau cyffredinol. Nid oes angen i ArWaith ddidynnu'r incwm gosod wrth gyfrifo ei gostau cyffredinol.

- Derbyniodd ArWaith grant o £5,000 i brynu cyfarpar cyfrifiadurol ar gyfer y swyddfa.

  Ni allwn gyfrannu at gost ddibrisio'r cyfarpar hwn.

# 6. Adnabod eich costau

Mae'n bwysig eich bod yn adnabod eich holl gostau prosiect a chostau cyffredinol. Os byddwch yn methu â gwneud hyn mae'n bosib y bydd eich prosiect wedi'i danariannu. Byddwn yn eich ariannu dim ond os gallwch ddangos bod eich prosiect a'ch mudiad yn ddichonadwy yn ariannol. Mae'n rhaid i chi ddangos i ni eich bod wedi adnabod eich holl gostau prosiect uniongyrchol a'ch holl gostau cyffredinol.

## 6.1 Adnabod costau uniongyrchol eich prosiect

Rydym yn argymell eich bod yn:

- gwneud rhestr o'r holl bethau y bydd angen i chi eu gwneud i roi eich prosiect ar waith. Ystyriwch fywyd cyfan eich prosiect. Yn aml mae gan brosiectau dri cyfnod, y cyfnod cychwynnol; cyfnod gweithredol, pan fydd y prosiect yn rhedeg; a chyfnod cau i lawr, pan gaiff y prosiect ei ddirwyn i lawr. Defnyddiwch y rhestrau isod i helpu adnabod costau nodweddiadol a delir ym mhob un o'r cyfnodau hyn
- edrychwch ar gostau eich prosiectau presennol. Byddant yn rhoi eich syniad i chi o'r costau a allai gael eu talu a'r symiau (cyfraddau cyflog er enghraifft)
- Siaradwch â mudiadau eraill sy'n rhedeg prosiectau tebyg. Weithiau gall fod costau annisgwyl gyda phrosiectau. Mae'n bosib y bydd mudiadau sy'n rhedeg prosiectau tebyg yn gallu eich helpu adnabod y rhain.

### Costau cychwynnol nodweddiadol prosiectau

- hysbysebu ar gyfer, recriwtio a hyfforddi staff a gwirfoddolwyr
- prynu cyfarpar, dodrefn a cherbydau
- dod o hyd i adeiladau a'u paratoi i'w defnyddio
- hyrwyddo'r prosiect
- costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyd-drafod a llunio contractau
- dod o hyd i drwyddedau a chaniatadau.

### Costau refeniw nodweddiadol prosiectau

- cyflogau gweithwyr prosiect, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac unrhyw gyfraniad pensiwn y cyflogwr. Gallwch ddefnyddio'r Daenlen Gyflogau i'ch helpu cyfrifo'r rhain
- treuliau staff a gwirfoddolwyr prosiect, gan gynnwys teithio, llety a biliau ffôn
- rhent, gwres, golau, cynnal a chadw ac yswiriant ar gyfer swyddfeydd ac adeiladau a ddefnyddir dim ond ar gyfer y prosiect
- hyfforddi staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect
- deunyddiau a chostau rhedeg bob dydd y prosiect
- eitemau sydd â bywyd byr fel nwyddau papur neu fylbiau golau
- monitro a gwerthuso'r prosiect
- codi arian ar gyfer parhau â'r prosiect ar ôl i'w grant presennol ddod i ben
- marchnata a chyhoeddusrwydd
- ffioedd proffesiynol a chyfreithiol a delir yn benodol ar gyfer y prosiect.

### Costau cau i lawr nodweddiadol prosiectau

- costau diswyddo neu adleoli staff
- gwaredu unrhyw eiddo neu gyfarpar a ddefnyddir yn benodol ar gyfer y prosiect gan gynnwys unrhyw gostau dadfeilio
- gwerthuso ac adrodd terfynol ar y prosiect.

Enghraifft: Prosiect Plant Undref

Mae Prosiect Plant Undref yn rhedeg cylch chwarae ar gyfer plant hyd at bum mlwydd oed. Mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg gan bwyllgor rheoli ac yn cyflogi rheolwr canolfan, gweinyddwr a glanhawr. Mae'r pwyllgor rheoli wedi penderfynu agor grŵp rhieni a phlant bach. Bydd y prosiect rhieni a phlant bach yn cyflogi trefnydd rhieni a phlant bach ac yn adnewyddu rhan o'r ganolfan i'w defnyddio gan y prosiect. Y costau uniongyrchol a amcangyfrifir ar gyfer y prosiect rhieni a phlant bach yn ei flwyddyn weithredu gyntaf yw:

| | Costau refeniw (£) | Costau cyfalaf (£) |
|---|---|---|
| Cyflog y trefnydd | 11,000 | |
| Costau recriwtio | 500 | |
| Treuliau a hyfforddiant y trefnydd | 500 | |
| Deunyddiau, llyfrau a llenyddiaeth | 1,000 | |
| Gwibdeithiau a digwyddiadau | 1,000 | |
| Costau adnewyddu | | 8,000 |
| Cyfrifiadur a meddalwedd | | 800 |
| Dodrefn, celfi a chyfarpar | | 4,500 |
| Cyfanswm costau prosiect uniongyrchol | 14,000 | 13,300 |

## 6.2 Adnabod eich costau cyffredinol

Defnyddiwch gyfrifon blynyddol, cyllidebau a rhagamcanion eich mudiad i helpu adnabod eich costau cyffredinol.

## Costau cyffredinol nodweddiadol

- cyflogau staff craidd megis rheolwyr, gweinyddwyr, staff cyllid, glanhawyr a gofalwyr
- cyflogau staff, gan gynnwys rheolwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn a nifer o brosiectau eraill
- cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr neu'r pwyllgor rheoli a'u treuliau
- ffioedd archwilio, cyfrifyddu a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â rhedeg eich mudiad cyfan
- rhent, gwres, golau, cynnal a chadw ac yswiriant ar gyfer adeiladau y mae eich prosiect yn eu rhannu gyda phrosiectau eraill
- costau gweinyddu a swyddfa sy'n cefnogi nifer o brosiectau gan gynnwys eich prosiect chi. Er enghraifft: nwyddau swyddfa, biliau ffôn, postio, llun-gopïo a chyfrifiaduron
- ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â chynllunio strategol
- codi arian tuag at gostau cefnogi'r mudiad yn gyffredinol

- hyfforddi staff cefnogi a staff uwch
- Rhwydweithio a mynd i gynadleddau neu waith partneriaeth sydd o fudd i'r prosiect rydych eisiau i ni ei ariannu.

## 6.3 Cyflogau staff

Cofiwch gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr ac unrhyw gyfraniadau pensiwn y cyflogwr wrth gyfrifo cyflogau staff. Cost cyflog llawn cyflogai yw:

- tâl crynswth y cyflogai plws
- cyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwr plws
- unrhyw gyfraniad pensiwn gan y cyflogwr.

Defnyddiwch y Daenlen Gyflogau i'ch helpu cyfrifo eich costau cyflog llawn.

## 6.4 TAW

Darganfod a yw eich mudiad yn gofrestredig ar gyfer TAW? Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, cofiwch gynnwys TAW yn eich amcangyfrifon lle bo'n briodol. Os ydych yn gofrestredig ar gyfer TAW ceisiwch gyngor gan y sawl sy'n paratoi dychweliadau TAW eich mudiad.

## 6.5 Darparu ar gyfer chwyddiant

Mae rhai costau'n debygol o godi o flwyddyn i flwyddyn oherwydd chwyddiant. Os ydych yn seilio eich costau prosiect uniongyrchol a chostau cyffredinol ar brisiau cyfredol dylech ddarparu ar gyfer chwyddiant lle bo'n briodol. Byddwn yn caniatáu i chi ddefnyddio cyfradd chwyddiant o hyd at 3%.

### Enghraifft: Chwyddiant

Mae ArWaith yn ymgeisio am dair blynedd o ariannu ar gyfer cyfres newydd o gyrsiau hyfforddi. Bydd y prosiect hwn yn dechrau y flwyddyn nesaf. Mae cyfrifon ArWaith yn dangos mai ei fil ffôn y llynedd oedd £1,200. I amcangyfrif y bil ffôn ar gyfer y flwyddyn hon, mae ArWaith yn tybio cyfradd chwyddiant o 3%. I gyfrifo cynnydd o 3% lluoswch ag 1.03.

Y biliau ffôn wedi'u hamcangyfrif

fydd: Yn y flwyddyn bresennol £1,200 x 1.03 = £1,236.

Ym mlwyddyn gyntaf y cyrsiau hyfforddi £1,236 x 1.03
= £1,273.

Yn ail flwyddyn y cyrsiau hyfforddi £1,273 x 1.03 = £1,311.

Yn nhrydedd flwyddyn y cyrsiau hyfforddi £1,311 x 1.03 = £1,351.

## 6.6 Caniatáu ar gyfer cynnydd mewn gweithgarwch

Gallai ychwanegu prosiectau gynyddu costau cyffredinol oherwydd lefelau gweithgarwch cynyddol. Er enghraifft gall ychwanegu prosiectau newydd gynyddu eich biliau ffôn, costau nwyddau swyddfa a chostau tanwydd.

### Enghraifft: Darparu ar gyfer cynnydd mewn gweithgarwch a chwyddiant

Ar hyn o bryd mae ArWaith yn cyflogi wyth o staff. Bydd y cyrsiau hyfforddi newydd yn ychwanegu dau aelod staff ychwanegol. Gan dybio y bydd yr holl staff yn defnyddio'r ffôn yn gyfartal, mae ArWaith yn amcangyfrif y bydd y bil ffôn yn cynyddu 2 ÷ 8 = 0.25 (25%) o ganlyniad i'r galwadau ychwanegol a gynhyrchir gan y prosiect newydd.
Y gyfradd chwyddiant yw 3% bob blwyddyn a'r bil cyfredol yw £1,200.
Y biliau ffôn wedi'u hamcangyfrif yw:

Yn y flwyddyn bresennol £1,200 x 1.03 = £1,236.

Ym mlwyddyn gyntaf y cyrsiau hyfforddi £1,236 x 1.03 x 1.25 = £1,591.

Yn ail flwyddyn y cyrsiau hyfforddi £1,591 x 1.03 = £1,639.

Yn nhrydedd flwyddyn y cyrsiau hyfforddi £1,639 x 1.03 = £1,688.

Enghraifft o gyfrifo costau cyffredinol: Prosiect Plant Undref

Dyma enghraifft o gyfrifo costau cyffredinol ar gyfer mudiad cyfan. Yr enghraifft yw'r costau cyffredinol ar gyfer Prosiect Plant Undref yn y flwyddyn y mae ei grŵp rhieni a phlant bach yn dechrau.

Disgwylir y bydd costau swyddfa ac adeiladau'n cynyddu 8% oherwydd y lefel weithgarwch gynyddol, heblaw am rent, dŵr ac yswiriant, na fyddant yn newid.

Nid yw costau staff wedi'u heffeithio gan y cynnydd mewn gweithgarwch.

Penni chwyddiant fel 3%. Disgwylir i'r holl gostau gynyddu'n unol â chwyddiant. I ddarparu ar gyfer cynnydd 8% mewn gweithgarwch lluoswch ag 1.08 ac i ddarparu ar gyfer cynnydd 3% mewn chwyddiant, lluoswch ag 1.03.

| | **Costau cyffredinol y llynedd £ A** | **Newid mewn gweithgarwch B** | **Lwfans chwyddiant C** | **Costau cyffredinol a ddisgwylir eleni £ = A x B x C** |
|---|---|---|---|---|
| **Costau staff** | | | | |
| Rheolwr canolfan | 24,100 | 1.00 | 1.03 | 24,823 |
| Gweinyddwr | 8,070 | 1.00 | 1.03 | 8,312 |
| Glanhawr | 4,016 | 1.00 | 1.03 | 4,136 |
| Hyfforddiant a threuliau staff | 500 | 1.00 | 1.03 | 515 |
| **Costau refeniw swyddfa ac adeiladau** | | | | |
| Nwyddau swyddfa, postio ac argraffu | 550 | 1.08 | 1.03 | 612 |
| Nwy a thrydan | 2,500 | 1.08 | 1.03 | 2,781 |
| Ffôn | 1,000 | 1.08 | 1.03 | 1,112 |
| Cyfarpar swyddfa | 500 | 1.08 | 1.03 | 556 |
| Rhent, trethi dŵr ac yswiriant | 15,000 | 1.00 | 1.03 | 15,450 |
| Deunyddiau glanhau | 2,500 | 1.08 | 1.03 | 2,781 |
| Cynnal a chadw ac atgyweirio | 2,500 | 1.08 | 1.03 | 2,781 |
| Mân gostau | 500 | 1.08 | 1.03 | 556 |
| **Cyfansymiau** | **61,736** | | | **64,416** |

Y cyfanswm costau cyffredinol ar gyfer Prosiect Plant Undref felly yw £64.416

# 7. Rhannu costau cyffredinol

Wrth adennill costau llawn dyrennir ei gyfran deg o'r costau cyffredinol i bob prosiect. Costau llawn prosiect yw:

- costau uniongyrchol y prosiect **a**
- chyfran deg y prosiect o gostau cyffredinol y mudiad.

Mae Adran 6 uchod yn esbonio sut i amcangyfrif costau uniongyrchol eich prosiect a chyfanswm costau cyffredinol eich mudiad. Mae'r adran hon yn esbonio sut i rannu'r costau cyffredinol ymhlith eich prosiectau ar sail teg a rhesymol.

## 7.1 Teg a rhesymol

Mae'n bwysig bod y costau cyffredinol yn cael eu rhannu rhwng prosiectau ar sail teg a rhesymol.
Mae hyn yn golygu:

- bod cyfran pob prosiect o'r costau cyffredinol yn briodol o ystyried natur a graddfa ei weithgareddau (mewn geiriau eraill, nid yw prosiect yn derbyn cyfran o gostau cyffredinol nad yw'n eu talu)
- bod sail resymegol dros y dull a ddefnyddir i rannu costau cyffredinol y gellir ei chyfiawnhau a'i chefnogi.

Nid ydym yn ystyried bod ychwanegu ffi rheoli a gyfrifir fel canran safonol o gostau prosiect yn ddull teg neu resymol o rannu costau cyffredinol. Mae hyn oherwydd nad yw'r dull yn seiliedig ar ddealltwriaeth o beth yw eich costau cyffredinol.

## 7.2 Adnabod sail briodol dros rannu costau cyffredinol

Mae'n rhaid i chi benderfynu sut i rannu costau cyffredinol eich mudiad ymhlith y prosiectau gwahanol yn eich mudiad.

- Os oes gan eich mudiad ddull sefydledig o rannu ei holl gostau cyffredinol yn barod, ac mae'r dull hwn yn deg ac yn rhesymol, byddwn yn disgwyl i chi ddefnyddio'r dull hwn.
- Os nad oes gan eich mudiad ddull teg a sefydledig mae'n rhaid i chi ddewis dull sydd yn deg ac yn rhesymol. Efallai y byddwch yn penderfynu rhannu eich holl gostau cyffredinol yn yr un ffordd neu efallai y byddwch yn penderfynu y dylid rhannu rhai costau cyffredinol mewn un ffordd a chostau cyffredinol eraill mewn ffordd arall.

Dulliau cyffredinol o rannu costau cyffredinol yw:

## 7.3 Nifer y staff

Mae rhannu costau cyffredinol yn seiliedig ar nifer y staff prosiect uniongyrchol yn eithaf cyffredin. Os yw nifer y staff prosiect uniongyrchol yn adlewyrchu meintiau cymharol eich prosiectau'n deg gallai'r dull hwn fod yn briodol. Fel arfer mae'n briodol addasu eich amcangyfrif ar gyfer staff rhan-amser. Os oes llawer o wirfoddolwyr yn gweithio ar brosiectau gallai fod yn briodol cynnwys amser gwirfoddolwyr yn y cyfrifiadau.

**Enghreifftiau o rannu costau cyffredinol gan ddefnyddio niferoedd staff: Prosiect Plant Undref**

Mae rheolwr Prosiect Plant Undref yn nodi bod maint yr amser y mae hi'n ei dreulio ar bob prosiect yn gymesur yn fras â nifer staff sy'n gweithio ar bob prosiect. Mae nifer staff y prosiect hefyd yn cael ei adnabod fel sail briodol dros rannu costau gweinyddu ac adeiladau eraill rhwng y prosiectau. Y sail a ddefnyddir i rannu'r holl gostau cyffredinol fydd nifer oriau gwaith staff bob wythnos.

Y staff ym Mhrosiect Plant Undref pan fydd y clwb rhieni a phlant bach yn cychwyn fydd:

- rheolwr y ganolfan
- pedwar aelod staff y cylch chwarae, gyda phob un yn gweithio 35 awr yr wythnos
- y gweithiwr rhieni a phlant bach, sy'n gweithio 21 awr yr wythnos
- gweinyddwr a glanhawr.

Nid yw rheolwr y ganolfan, y gweinyddwr a'r glanhawr yn staff y prosiect. Mae'r holl staff eraill yn gweithio'n uniongyrchol ar brosiectau. Mae'r costau cyffredinol wedi'u rhannu fel a ganlyn:

| Prosiect | Oriau staff y prosiect bob wythnos | Canran y cyfanswm oriau bob wythnos | Cyfran o’r costau cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Cylch chwarae | 140 | 140 ÷ 161 = 87% | £64,416 x 0.87 = £56,014 |
| Rhieni a phlant bach | 21 | 21 ÷ 161 = 13% | £64,416 x 0.13 = £8,402 |
| Cyfansymiau | 161 | 100% | £64,416 |

Cyfran y Clwb Rhieni a Phlant Bach o'r costau cyffredinol yw £8,402. Os yw staff y prosiect yn gweithio niferoedd gwahanol o wythnosau y flwyddyn byddai nifer yr oriau gwaith y flwyddyn yn cael eu defnyddio  i gyfrifo'r canrannau.

## 7.4 Defnyddio adeiladau

Pan fydd costau adeiladu'n sylweddol, gallai fod yn briodol rhannu costau'n seiliedig ar hyd yr amser y mae pob prosiect yn defnyddio'r adeilad neu'r arwynebedd llawr a ddefnyddir gan bob prosiect.

Enghraifft: rhannu costau cyffredinol yn seiliedig ar ddefnyddio adeiladau Mae Neuadd Undref yn neuadd bentref gyda dwy neuadd, y brif neuadd a'r neuadd fach. Mae gan y brif neuadd arwynebedd llawr o 50 metr sgwâr ac mae gan y neuadd fach arwynebedd llawr o 25 metr sgwâr. Yr amcangyfrif o'r costau cyffredinol ar gyfer y mudiad cyfan yw £24,000. Bydd tri phrosiect yn defnyddio'r neuaddau hyn fel a ganlyn.

- geidiau: y brif neuadd am 12 awr yr wythnos
- clwb dros 60 oed: y brif neuadd am 20 awr yr wythnos
- grŵp theatr amatur: y neuadd fach am 12 awr yr

wythnos. Mae'r costau cyffredinol wedi'u rhannu fel a

ganlyn:

| Prosiect | Lefel ddefnydd (arwynebedd x oriau yr wythnos) | Canran o'r cyfanswm defnydd | Cyfran o'r costau cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Geidiau | 50 x 12 = 600 | 600 ÷ 1,900 = 31% | £24,000 x 0.31 = £7,579 |
| Clwb dros 60 oed | 50 x 20 = 1,000 | 1,000 ÷ 1,900 = 53% | £24,000 x 0.53 = £12,632 |
| Grŵp theatr | 25 x 12 = 300 | 300 ÷ 1,900 = 16% | £24,000 x 0.16 = £3,789 |
| Cyfansymiau | 1,900 | 100% | £24,000 |

Felly cyfran y grŵp theatr o gostau cyffredinol yr adeilad yw £3,789. Os oedd y prosiectau'n defnyddio'r ystafelloedd am niferoedd gwahanol o wythnosau yn y flwyddyn byddai'r canrannau'n seiliedig ar: arwynebedd llawr x oriau deiliadaeth yr wythnos x wythnosau deiliadaeth y flwyddyn.

## 7.5 Gwariant uniongyrchol ar y prosiect

Mae un o'r dulliau symlaf ar gyfer rhannu costau cyffredinol yn seiliedig ar wariant uniongyrchol ar y prosiect. Mae'r dull hwn yn briodol dim ond os yw'r costau cyffredinol yn fach o'i gymharu â chyfanswm costau uniongyrchol y prosiect a bod y costau prosiect uniongyrchol ym mhob prosiect yn debyg eu math. Er enghraifft, os yw un prosiect wedi'i staffio'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac un arall gan staff â thâl, gallai'r gyfran ar gyfer y prosiect a arweinir gan wirfoddolwyr fod yn rhy isel os defnyddir y dull hwn.

## 7.6 Nifer y defnyddwyr neu fuddiolwyr

Gallai nifer y defnyddwyr gwasanaeth neu fuddiolwyr fod yn sail briodol dros rannu costau cyffredinol os bydd pob buddiolwr yn talu lefel gostau tebyg neu os byddwch yn derbyn ariannu sy'n seiliedig ar y nifer o fuddiolwyr.

## 7.7 Dulliau seiliedig ar amser staff

Os oes gennych un neu fwy o reolwyr gyda phob un ohonynt yn rheoli nifer o brosiectau, ac mae'r costau rheoli'n sylweddol, gallai fod yn briodol rhannu'r costau hyn yn seiliedig ar faint o amser y mae rheolwyr yn ei dreulio ar bob prosiect. Weithiau mae angen amser rheoli mwy effeithiol ar brosiectau yn y camau cychwyn a chau i lawr, felly gall hwn fod yn ddull effeithiol o ganiatáu hwn.

## 7.8 Dulliau gwahanol o rannu costau cyffredinol

Yn aml nid oes angen rhannu mathau gwahanol o gostau cyffredinol, mae'n bosib na fydd yn gwella cywirdeb eich amcangyfrifon. Er hynny mae adegau pan fydd defnyddio mwy nag un sail yn briodol. Os nad yw rhai prosiectau'n gyfrifol am un categori o gostau cyffredinol gallai fod angen defnyddio sail wahanol dros rannu'r costau cyffredinol gwahanol. Mae Astudiaeth Achos Canolfan Gymunedol Ioan Sant ar dudalen 17 yn darparu enghraifft o hyn.

## 7.9 Cywirdeb

Dim ond amcangyfrif yw dyrannu costau cyffredinol i'r prosiect. Nid oes angen iddo fod yn rhy fanwl neu'n ormod o faich o ran amser. Cofiwch sicrhau bod y dull dyrannu'n deg ac yn rhesymol ar sail yr wybodaeth sydd gennych.

## 7.10 Gwirio'ch canlyniadau

Ar ôl cyfrifo canran eich prosiect o'r costau cyffredinol dylech ystyried a yw'r canlyniadau'n gwneud synnwyr. Gofynnwch i'ch hun:

- ydy'r canlyniadau i'w gweld yn rhesymol ar sail eich gwybodaeth am y prosiect?
- ydy costau cyffredinol y prosiect yn deg o'i gymharu â chostau uniongyrchol y prosiect a sut maent yn cymharu â phrosiectau eraill?
- ydy cyfran y prosiect o gyfanswm costau cyffredinol y mudiad yn deg a sut mae hyn yn cymharu â chyfrannau prosiectau eraill?

# 8. Incwm arall y prosiect

Gallwn ariannu holl gostau refeniw a chyfalaf uniongyrchol eich prosiect, yn amodol ar y cyfyngiadau a ddisgrifir yn adran 5. Os ydych yn bwriadu codi incwm o ffynonellau eraill, rydym yn disgwyl y bydd y ffynonellau hynny'n cwmpasu eu cyfran deg o gostau cyffredinol y prosiect. Byddwn yn ariannu dim ond ein cyfran ni o gostau cyffredinol y prosiect.
Ni fyddem yn disgwyl ariannu cyfran uwch o'ch costau cyffredinol na'r cyfran o'ch costau prosiect uniongyrchol rydych yn gofyn i ni eu hariannu.

Gall y daenlen ynghlwm wrth y llyfryn hwn gyfrifo'r uchafswm cyfraniad y gallwch ei wneud tuag at gostau cyffredinol eich prosiect.

**Enghraifft: Prosiect Plant Undref**
Costau llawn y clwb rhieni a phlant bach yw;

| | | |
|---|---|---|
| Costau uniongyrchol | Costau refeniw | £14,000 |
| | Costau cyfalaf | £13,300 |
| Cyfran o'r costau cyffredinol | | £8,402 |
| Costau llawn y prosiect | | £35,702 |

Bydd Prosiect Plant Undref yn codi £6,000 tua'r prosiect o ffynonellau eraill. Bydd yr holl ffynonellau hyn yn cyfrannu at gostau cyffredinol yn ogystal â chostau prosiect. Mae Prosiect Plant Undref yn gofyn i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am y £29,702 sy'n weddill (£35,702 - £6,000)

Cyfran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o gostau llawn y prosiect yw
£29,702 x £35,702 = 83%

Y cyfraniad y gallwn ei wneud yw:

| | |
|---|---|
| Tuag at gostau cyffredinol | £8,402 x 0.83 = £6,990 |
| Tuag at y costau prosiect uniongyrchol | £29,702 - £6,990 = £22,712 |
| Cyfanswm cyfraniad | £6,990 + £22,712 = £29,702 |

# 9. Crynodeb

1 Amcangyfrifwch gostau uniongyrchol eich prosiect **Gweler adran 6**

2 Amcangyfrifwch beth fydd costau cyffredinol eich mudiad yn y cyfnod y bydd y prosiect yn rhedeg. **Gweler adran 6**

3 Gwnewch yn siŵr fod unrhyw gostau na allwn eu hariannu wedi eu hepgor. **Gweler adran 5**

4 Cyfrifwch gyfran deg eich prosiect o'r costau cyffredinol hyn. **Gweler adran 7**

5 Costau llawn eich prosiect yw ei gostau uniongyrchol â'r prosiect ynghyd â'i gyfran o'r costau cyffredinol.

6 Os byddwch yn codi incwm y prosiect o ffynonellau eraill, cyfrifwch eich cyfran ni o'r costau cyffredinol. **Gweler adran 8**

# 10. Ffynonellau gwybodaeth

Efallai bydd yr adnoddau a ganlyn yn ddefnyddiol i chi os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, adennill costau llawn neu gostio prosiectau:

## Ein gwefan

www.cronfagymunedolylg.org.uk

## Mudiadau eraill

Eich cyngor gwasanaeth gwirfoddol (neu debyg)

Eich awdurdod lleol

Cyngor cymuned gwledig (yn Lloegr)

## Gwybodaeth am adennill costau llawn

Adennill Costau Llawn: canllaw a phecyn cymorth ar ddyrannu costau a gyhoeddir gan ACEVO a New Philanthropy Capital. Darperir CD ROM rhyngweithiol gyda'r llyfr. Gweler gwefan ACEVO yn http://www.acevo.org.uk/ am fwy o fanylion neu ffoniwch ACEVO ar 0845 345 8481

Mae New Philanthropy Capital yn darparu set o adnoddau mewn perthynas ag adennill costau llawn ar eu gwefan yn: http://www.philanthropycapital.org/html/full_cost_recovery.php

Mae CASH – Online yn darparu taenlen am ddim a set fer o nodiadau arweiniad ar gyfer cyfrifo'ch costau llawn. Gellir lawrlwytho'r rhain o'u gwefan yn: http://www.cash-online.org.uk/content/1/56/.

## Astudiaeth achos: Canolfan Gymunedol Ioan Sant

Mae'r enghraifft hon yn dangos defnyddio dau ddull o rannu costau cyffredinol. Mae'n dangos y defnydd o'r daenlen adennill costau llawn a'r daenlen cyflogau hefyd.

### Cefndir

Ar hyn o bryd mae gan Ganolfan Gymunedol Ioan Sant (CGIS) bedwar prosiect:
**1** clwb ar ôl ysgol
**2** cylch chwarae
**3** clwb cymdeithasol i bensiynwyr
**4** prosiect allgymorth i ddarparu cymorth i bobl sy'n gaeth i'r tŷ.

Mae CGIS yn ymgeisio i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am gyllid tuag at brosiect ieuenctid newydd. Mae Anita, gweinyddwr y ganolfan, yn penderfynu defnyddio'r daenlen adennill costau llawn i gyfrifo faint o gyllid i ofyn amdano.

### Cam 1: Gwybodaeth am y prosiect

Mae Anita yn nodi manylion am y prosiect arfaethedig. Mae CGIS yn bwriadu dechrau ar y prosiect ar 1 Ebrill 2007 ac yn gofyn am grant ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd Anita yn defnyddio'r daenlen i gyfrifo'r costau ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac wedyn yn chwyddo'r ffigurau hyn i gyfrifo costau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Enw'r Mudiad | Canolfan Gymunedol Ioan Sant |
| 1.2 | Enw'r Prosiect | Prosiect Ieuenctid |
| 1.3 | Blwyddyn ariannu | 2007/2008 |
| 1.4 | Hyd y prosiect (wythnosau) yn y flwyddyn ariannu | 52 |

### Cam 2: Costau uniongyrchol y prosiect

Nesaf mae Anita yn amcangyfrif costau uniongyrchol y prosiect ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae hi'n amcangyfrif costau cyflog y prosiect gan ddefnyddio'r daenlen cyflogau. Mae hi'n defnyddio'r cyfraddau Yswiriant Gwladol diweddaraf sydd ar gael ac yn gadael lwfans ar gyfer cyflenwi gwyliau a salwch.

| Swydd | Cyfradd dâl | Oriau swydd yr wythnos | Wythnosau yng nghyfnod y prosiect | Cyfradd bensiwn cyflogwyr | Tâl crynswth | Yswiriant Gwladol Cyflogwyr | Cyfanswm cost y swydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £/awr | £/awr | wythnosau | % | £ | £ | £ |
| Uwch weithiwr ieuenctid | 11.75 | 16.00 | 52.00 | 0.00% | 9,776 | 626 | 10,402 |
| Gweithiwr ieuenctid cynorthwyol 1 | 9.50 | 12.00 | 52.00 | 0.00% | 5,928 | 133 | 6,061 |
| Gweithiwr ieuenctid cynorthwyol 2 | 9.50 | 12.00 | 52.00 | 0.00% | 5,928 | 133 | 6,061 |
| Staff cyflenwi | 9.50 | 12.00 | 12.00 | 0.00% | 1,368 | 31 | 1,399 |

Mae hi'n nodi'r costau staff ac amcangyfrif o gostau uniongyrchol eraill y prosiect yn y grid yng ngham 2 y daenlen.

| Cam 2: Nodwch gostau uniongyrchol eich prosiect | | Costau refeniw | Costau cyfalaf |
|---|---|---|---|
| Rhestrwch ddisgrifiadau'r costau a'r symiau isod | | £ | £ |
| Costau staff | Uwch weithiwr ieuenctid | 10,402 | |
| | Gweithiwr ieuenctid cynorthwyol 1 | 6,061 | |
| | Gweithiwr ieuenctid cynorthwyol 2 | 6,061 | |
| | Staff cyflenwi | 1,399 | |
| Costau staff eraill | Recriwtio | 2,000 | |
| | Hyfforddiant | 750 | |
| | Treuliau | 250 | |
| Costau gwirfoddolwyr | Recriwtio a hyfforddi | 500 | |
| | Treuliau | 500 | |
| Costau rhedeg | Deunyddiau a chyfarpar | 2,000 | |
| | Gwibdeithiau | 2,000 | |
| | Hurio bws mini | 1,000 | |
| | Tiwtoriaid a gweithdai | 1,000 | |
| | Tiwtor gweithdy cerddoriaeth | 1,500 | |
| | Mân eitemau | 500 | |
| Cyfarpar | Bwrdd pŵl | | 1,000 |
| | Byrddau tenis bwrdd x 2 | | 1,000 |
| | Cyfarpar cerddoriaeth | | 6,000 |
| Cyfanswm costau prosiect uniongyrchol | | 35,923 | 8,000 |

## Cam 3: Rhannu costau cyffredinol

Mae Anita yn archwilio costau cyffredinol y ganolfan gymunedol gan ddefnyddio'r gyllideb flynyddol gyfredol. Mae costau gwres, golau a chynnal a chadw'r ganolfan gymunedol yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o gostau cyffredinol yn ymwneud yn benodol â'r swyddfa a rhedeg prosiectau'r ganolfan. Mae'r prosiect allgymorth yn defnyddio'r swyddfa ond nid yw'n gwneud defnydd o weddill y ganolfan.

Mae Anita yn penderfynu rhannu'r costau cyffredinol i:

- gostau adeiladau
- costau gweinyddol a chefnogi.

## Rhannu costau adeiladau

Mae Anita yn ystyried po fwyaf y defnyddir y ganolfan, uchaf fydd y costau fel glanhau, cynnal a chadw, nwy a thrydan. Mae hi'n penderfynu rhannu costau'r adeilad yn seiliedig ar ddefnydd pob prosiect o'r ganolfan. Mae gan y ganolfan nifer o neuaddau a swyddfa.

**Y neuaddau**: Bydd defnydd pob prosiect yn cael ei gyfrifo trwy edrych ar yr arwynebedd y mae pob prosiect yn ei ddefnyddio ac am faint y mae'n ei ddefnyddio.

**Y swyddfa**: Mae'r prosiectau i gyd yn defnyddio'r swyddfa. Bydd Anita yn cyfrifo cyfran y swyddfa o gostau'r adeilad ar yr un sail, ac wedyn yn ychwanegu'r rhain at y costau gweinyddol a chefnogi. Mae Anita yn creu taenlen i gyfrifo sut i rannu costau'r adeilad. Mae hi'n rhestru pob gweithgaredd sy'n digwydd yn y ganolfan. Mae hi'n llunio amcangyfrif bras o'r arwynebedd a ddefnyddir gan bob gweithgaredd ac o'r cyfnod amser y mae pob gweithgaredd yn parhau. Mae hi'n penderfynu anwybyddu ardaloedd cymunedol fel y gegin, toiledau, y cyntedd a'r stordai.

| Gweithgaredd | Ardal a ddefnyddir (metrau sgwâr) | Oriau yr wythnos | Wythnosau y flwyddyn | Defnydd |
|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | =A x B x C |
| Prosiect ieuenctid | 225 | 9 | 50 | 101,250 |
| Clwb ar ôl ysgol | 225 | 15 | 43 | 145,125 |
| Cylch chwarae | 250 | 40 | 50 | 500,000 |
| Clwb cymdeithasol | 50 | 9 | 50 | 22,500 |
| Swyddfa (allgymorth a chefnogaeth) | 50 | 35 | 50 | 87,500 |

## Rhannu costau gweinyddol a chefnogi

Mae Anita yn ystyried po fwyaf o staff a gwirfoddolwyr sydd gan brosiect, uchaf fydd y costau gweinyddol a chefnogi y mae'n eu talu. Mae hi'n penderfynu rhannu'r costau gweinyddol a chefnogi ar sail y nifer o staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol ar bob prosiect.

Mae rhai o'r staff a gwirfoddolwyr yn gweithio'n rhan-amser ac felly mae angen llai o weinyddu a chefnogaeth arnynt na staff amser llawn. I ddarparu ar gyfer hwn, mae Anita yn penderfynu defnyddio oriau agor y prosiect i gyfrifo faint o weinyddu a chefnogaeth y mae eu hangen ar y prosiectau. Mae Anita yn creu taenlen ar gyfer hyn o beth. Mae hi'n rhestru'r prosiectau ac yn nodi'r nifer o staff a gwirfoddolwyr ac oriau agor pob prosiect. (mae staff a gwirfoddolwyr ar bob prosiect i gyd yn gweithio holl oriau agor y prosiect.)

Ar y sail hon mae hi'n cyfrifo cyfanswm oriau staff a gwirfoddolwyr pob prosiect mewn blwyddyn.

| Prosiect | Nifer o staff a gwirfoddolwyr | Oriau yr wythnos | Wythnosau y flwyddyn | Cyfanswm oriau staff a gwirfoddolwyr y prosiect |
|---|---:|---:|---:|---:|
| | A | B | C | =A x B x C |
| Prosiect ieuenctid | 6 | 9 | 50 | 2,700 |
| Clwb ar ôl ysgol | 6 | 15 | 43 | 3,870 |
| Cylch chwarae | 7 | 40 | 50 | 14,000 |
| Clwb cymdeithasol | 3 | 9 | 50 | 1,350 |
| Prosiect allgymorth | 4 | 20 | 50 | 4,000 |

Mae Anita yn nodi'r mathau o gostau cyffredinol a'r seiliau dros rannu costau yng ngham 3 y daenlen adennill costau llawn.

| Cam 3: Disgrifiwch sut caiff costau cyffredinol eich mudiad eu rhannu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cost gyffredinol math 1 | Cost gyffredinol math 2 | Cost gyffredinol math 3 |
| 3.1 | Math o gost gyffredinol | Disgrifiwch y math o gost gyffredinol, er enghraifft, gweinyddu, adeiladu, rheolaeth a chefnogaeth | Costau’r adeilad | Costau gweinyddol a chefnogi | |
| 3.2 | Sut caiff y costau cyffredinol eu rhannu | Disgrifiwch sut caiff pob un ei rannu, er enghraifft, nifer y staff, arwynebedd llawr a ddefnyddir | Lefel ddefnydd yr adeilad (arwynebedd a ddefnyddir ac wedi’i ddefnyddio bob blwyddyn | Oriau staff a gwirfoddolwyr bob blwyddyn | |

## Cam 4: Rhannu costau cyffredinol

Yng ngham 4 mae Anita yn rhestru holl brosiectau eraill CGIS ac yn nodi lefel defnyddio'r adeilad a'r oriau staff a gwirfoddolwyr a gyfrifwyd yn ei thaenlen.

| Cam 4: Rhannu'r costau cyffredinol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nodwch gyfrannau'r prosiectau isod | | |
| | | Costau adeilad | Costau gweinyddol a chefnogi | |
| | Rhestrwch y prosiectau isod | Lefel ddefnydd yr adeilad | Oriau staff a gwirfoddolwyr | |
| 4.1 Eich prosiect | Prosiect ieuenctid | 101,250 | 2,700 | |
| 4.2 Prosiectau eraill: | Clwb ar ôl ysgol | 145,125 | 3,870 | |
| | Cylch chwarae | 500,000 | 14,000 | |
| | Clwb cymdeithasol | 22,500 | 1,350 | |
| | Prosiect allgymorth | | 4,000 | |
| 4.3 Costau cyffredinol | Costau gweinyddol a chefnogi | 87,500 | | |
| Cyfansymiau | | 856,375 | 25,920 | - |
| Cynnydd mewn gweithgarwch o ganlyniad i'ch prosiect | | 13% | 12% | 0% |
| Canran o ganlyniad i'ch prosiect | | 12% | 10% | 0% |

Mae'r daenlen adennill costau llawn yn cyfrifo:

- cynnydd mewn gweithgarwch: dyma'r gweithgarwch ychwanegol o ganlyniad i'r prosiect ieuenctid. Bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio 13% yn fwy a bydd oriau staff a gwirfoddolwyr y prosiect yn codi 12%.
- canran o ganlyniad i'ch prosiect: dyma'r gyfran o bob math o gost gyffredinol a gaiff ei rhoi i'r prosiect ieuenctid. bydd 12% o'r costau adeiladau a 10% o'r costau gweinyddol a chefnogi'n cael eu rhoi i'r prosiect ieuenctid.

## Cam 5: Cyfrifo'r costau cyffredinol

Nesaf mae Anita yn sefydlu taenlen i gyfrifo costau cyffredinol arfaethedig y prosiect ieuenctid ym mlwyddyn gyntaf y prosiect ieuenctid.

- **Costau cyfredol**: Mae hi'n nodi ffigurau o gyllideb y flwyddyn gyfredol yn y golofn costau cyfredol
- **Newid yn lefel y gweithgarwch**: Yn y golofn nesaf mae hi'n amcangyfrif faint fydd y gweithgaredd yn newid o ganlyniad i gyflwyno'r prosiect ieuenctid. Mae hi'n defnyddio'r cynnydd mewn gweithgarwch a gyfrifir yng Ngham 4 (13% ar gyfer costau adeiladau a 12% ar gyfer costau gweinyddol) ac eithrio eitemau penodol (fel rhent) y mae hi'n gwybod na chodir tâl ar eu cyfer. Cytunwyd y bydd oriau'r gofalwr yn codi o 15 yr wythnos i 18 yr wythnos pan fydd y prosiect ieuenctid yn dechrau, cynnydd o 20%.
- **Chwyddiant**: Mae Anita yn penderfynu defnyddio cyfradd chwyddiant 3% ar gyfer yr holl gostau.
- **Costau a ragfynegir**: Cyfrifir y rhain fel cost gyfredol x newid mewn gweithgarwch x newid oherwydd chwyddiant.

| | Cost gyfredol (£)<br>A | Newid mewn gweithgarwch<br>B | Chwyddiant (3%)<br>C | Cost arfaethedig (£)<br>= A x B x C |
|---|---|---|---|---|
| Nwy a thrydan | 4,500 | 1.13 | 1.03 | 5,238 |
| Rhent, trethi a threthi dŵr | 1,500 | 1.00 | 1.03 | 1,545 |
| Yswiriant | 4,500 | 1.00 | 1.03 | 4,635 |
| Cynnal a chadw ac atgyweirio | 2,000 | 1.13 | 1.03 | 2,328 |
| Contract y system ddiogeledd | 500 | 1.00 | 1.03 | 515 |
| Cyfarpar a deunyddiau glanhau | 1,500 | 1.13 | 1.03 | 1,746 |
| Trwyddedau, archwiliadau etc | 500 | 1.00 | 1.03 | 515 |
| Costau adeiladau amrywiol | 500 | 1.13 | 1.03 | 582 |
| Gweinyddwr y ganolfan | 5,709 | 1.00 | 1.03 | 5,880 |
| Gofalwr | 5,841 | 1.20 | 1.03 | 7,219 |
| Gofalwyr cyflenwi | 786 | 1.20 | 1.03 | 971 |
| Cynorthwy-ydd cyllid | 1,349 | 1.00 | 1.03 | 1,389 |
| Treuliau a hyfforddiant staff | 500 | 1.00 | 1.03 | 515 |
| Costau post | 500 | 1.12 | 1.03 | 577 |
| Argraffu a nwyddau swyddfa | 1,000 | 1.12 | 1.03 | 1,154 |
| Ffonau a rhyngrwyd | 1,000 | 1.12 | 1.03 | 1,154 |
| Cyfarpar a chontractau swyddfa | 1,000 | 1.12 | 1.03 | 1,154 |
| Taliadau banc | 250 | 1.12 | 1.03 | 288 |
| Ffioedd cyfrifydd | 1,500 | 1.12 | 1.03 | 1,730 |
| Costau swyddfa amrywiol | 500 | 1.12 | 1.03 | 577 |
| | 35,435 | | | 39,712 |

Mae Anita yn trosglwyddo'r ffigurau hyn i Gam 5 y daenlen adennill costau llawn, gan roi pob cost yn y golofn briodol.

| Cam 5: Nodwch gostau cyffredinol eich mudiad | Costau adeilad | Costau gweinyddol a chefnogi | |
|---|---|---|---|
| Rhestrwch y costau cyffredinol a'r symiau | £ | £ | £ |
| Nwy a thrydan | 5,238 | | |
| Rhent, trethi a threthi dŵr | 1,545 | | |
| Yswiriant | 4,635 | | |
| Cynnal a chadw ac atgyweirio | 2,328 | | |
| Contract y system ddiogeledd | 515 | | |
| Cyfarpar a deunyddiau glanhau | 1,746 | | |
| Trwyddedau, archwiliadau etc | 515 | | |
| Costau adeiladau amrywiol | 582 | | |
| Gweinyddwr y ganolfan | | 5,880 | |
| Gofalwr | 7,219 | | |
| Gofalwyr cyflenwi | 971 | | |
| Cynorthwy-ydd cyllid | | 1,389 | |
| Treuliau a hyfforddiant staff | | 515 | |
| Costau post | | 577 | |
| Argraffu a nwyddau swyddfa | | 1,154 | |
| Ffonau a rhyngrwyd | | 1,154 | |
| Cyfarpar a chontractau swyddfa | | 1,154 | |
| Taliadau banc | | 288 | |
| Ffioedd cyfrifydd | | 1,730 | |
| costau swyddfa amrywiol | | 577 | |
| Cyfansymiau | 25,294 | 14,418 | - |

## Cam 6: Costau llawn y prosiect

Yng ngham 6 mae'r daenlen yn cyfrifo costau llawn y prosiect ieuenctid yn awtomatig.

| Cam 6: Costau llawn eich prosiect<br>Dyma gostau llawn eich prosiect | | £ | £ |
|---|---|---|---|
| Costau uniongyrchol | Costau refeniw | 35,923 | |
| | Costau cyfalaf | 8,000 | |
| Cyfanswm costau prosiect uniongyrchol | | | 43,923 |
| Cyfran y prosiect o'r costau cyffredinol | Costau adeiladau | 2,991 | |
| | Costau gweinyddol a chefnogi | 1,502 | |
| | | - | |
| Cyfanswm cyfran o'r costau cyffredinol | | | 4,493 |
| Costau llawn y prosiect | | | 48,416 |

## Cam 7: Incwm arall y prosiect

Ariennir y prosiect yn rhannol gan grant. Mae'r grant ar gyfer costau cyfalaf y prosiect a rhai costau rhedeg yn unig. Mae Anita yn nodi manylion y grant yng ngham 7.

| Cam 7: Cyllid o ffynonellau eraill | | |
|---|---|---|
| | £<br><br>Swm a ddisgwylir ar gyfer y mudiad cyfan o'r ffynhonnell hon | £<br><br>Swm a ddisgwylir ar gyfer y prosiect hwn |
| 1. Rhestrwch y ffynonellau incwm y gellir eu defnyddio ar gyfer costau cyffredinol yn unig | | |
| | | 0 |
| | | 0 |
| | | 0 |
| 2. Rhestrwch y ffynonellau incwm y gellir eu defnyddio ar gyfer costau uniongyrchol y prosiect hwn yn unig | | |
| | 10,000 | |
| | | |
| | | |

| 3. Rhestrwch ffynonellau incwm eraill ar gyfer y prosiect hwn a all gyfrannu at gostau uniongyrchol y prosiect a chostau cyffredinol | £<br><br>Swm a ddisgwylir ar gyfer y mudiad cyfan o'r ffynhonnell hon | £<br><br>Swm a ddisgwylir ar gyfer y prosiect hwn |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| Cyfanswm ariannu o ffynonellau eraill | | 10,000 |
| £ o gostau uniongyrchol i'w rhannu rhwng arianwyr sy'n cefnogi costau cyffredinol a chostau uniongyrchol y prosiect | | £33,923 |
| % o gostau uniongyrchol a gefnogir gan arianwyr sy'n cefnogi costau uniongyrchol a chostau cyffredinol | | 77.23% |
| £ o gostau cyffredinol i'w rhannu rhwng arianwyr sy'n cefnogi costau cyffredinol a chostau uniongyrchol y prosiect | | £3,678 |
| % o gostau cyffredinol a gyfrannir gan arianwyr sy'n cefnogi costau cyffredinol a chostau uniongyrchol y prosiect | | 0% |

## Cam 8: Cyfraniad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cyfrifir y cyfraniad y gallai Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ei wneud i'r prosiect yng ngham 8.

### Cam 8: Y cyfraniad y gallwch ofyn i ni ei wneud

| Dyma'r uchafswm cyfraniadau y gallwn eu gwneud tuag at eich prosiect: | £ |
|---|---|
| tuag at gostau uniongyrchol eich prosiect | 33,923 |
| tuag at gyfran eich prosiect o'r costau cyffredinol | 3,678 |
| Cyfanswm cyfraniad tuag at eich prosiect | 37,601 |